

GWEITHGOR STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU

5^{ed} Medi 2018

Cynrychiolwyr Aelodau:

Mr A Archer, Cynghorydd M James a Dr RM Plummer.

Roedd Mrs J James wedi mynychu'r cyfarfod fel sylwedydd gan iddi fod â rhan fawr yn y gwaith o lunio rhaglen cefnogi a datblygu Aelodau yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Cynrychiolwyr Swyddogion:

Mr T Jones, Prif Weithredwr a Mrs J Evans, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.00 a.m. – 12.20 p.m.)

- 1. Penodi Cadeirydd**
CYTUNWYD i benodi Mr A Archer yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.
- 2. Penodi Dirprwy Gadeirydd**
CYTUNWYD i benodi Dr RM Plummer yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.
- 3. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.
- 4. Cofnodion**
CYTUNWYD i gadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20^{fed} o Fedi 2017.
- 5. Cynllun Hyfforddiant Datblygu Aelodau**
Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd y Gweithgor y gofynnwyd i bob Aelod lenwi ffurflen hunanasesu i glustnodi pa ofynion datblygu/cefnogi fyddai o gymorth iddynt gyflawni eu rôl, ac i flaenoriaethu eu tri prif ofynion.

Yn anffodus, dim ond wyth ffurflen a ddychwelwyd ond, er gwaethaf y ffaith siomedig hon, roedd hi o'r farn ei bod yn bosibl datblygu Cynllun Hyfforddiant am y flwyddyn sydd i ddod. Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau felly yn grynoded o'r anghenion hyfforddiant hyn, ac roedd Cynllun Hyfforddiant wedi'i ddatblygu o'r tair flaenoriaeth uchaf a glustnodwyd gan yr wyth Aelod. Hefyd roedd y Cynllun yn clustnodi amrywiol ddulliau y gellid cyflwyno'r hyfforddiant datblygu, megis drwy



gynnal gweithdy, modiwlau e-ddysgu neu sesiynau ymarferol/un-i-un gyda swyddogion.

Ychwanegodd y Swyddog Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod rhai Aelodau hefyd wedi nodi anghenion eraill, a byddai'r anghenion hyn yn derbyn sylw drwy Gynllun Cymorth Personol i'r Aelodau dan sylw.

Roedd y Gweithgor yn gytûn bod cynllun hyfforddiant yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob Aelod o'r Awdurdod, cyfleoedd allai nid yn unig feithrin sgiliau ychwanegol ond persbectif o'r newydd i'w rôl. Roedd y Grŵp hefyd o'r farn bod cyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i gymryd rhan yn y cyfleoedd datblygu hyn, petai ond i gryfhau'r sgiliau a/neu'r wybodaeth oedd ganddynt eisoes.

Fodd bynnag, roeddent o'r farn bod materion strategol o bwys ehangach i'r Awdurdod oedd hefyd angen eu hystyried yn y broses flaenoriaethu. Er enghraifft, er bod cadeirio cyfarfodydd wedi dod allan fel pedwaredd flaenoriaeth yn y dadansoddiad o'r anghenion hyfforddiant, roeddent o'r farn y dylai cadeirio cyfarfodydd gael ei raddio'n uwch ar y rhestr gan fod hyn yn hanfodol i gynllunio olyniaeth ac, yn benodol, i ddod yn Gadeirydd yr Awdurdod. Cytunodd y swyddogion i ail-flaenoriaethu'r cynllun hyfforddiant i roi ystyriaeth i farn y Gweithgor.

CYTUNWYD:

- (a) bod y Cynllun Hyfforddiant yn cael ei ail-flaenoriaethu yn unol â'r farn a fynegwyd yn y cyfarfod, a
- (b) bod y Cynllun Hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar y 3^{ydd} o Hydref 2018 i'w fabwysiadu.

6. Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau

Dywedwyd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn annog pob awdurdod unedol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i wneud cais am Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau - proses oedd yn dangos bod awdurdodau wedi ymrwymo i gynorthwyo a datblygu Aelodau yn eu rôl. Roedd dwy lefel i'r Siarter - Siarter a Siarter Uwch - ac roedd yr Awdurdod wedi derbyn statws Siarter yn 2010, a adnewyddwyd yn 2014.

Yn y cyfarfod diwethaf o'r Gweithgor, roedd yr Aelodau wedi holi a oedd yr Awdurdod mewn sefyllfa i wneud cais am statws Lefel Uwch, ac roedd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd wedi cytuno i gynnal adolygiad o'r prosesau sydd eisoes ar waith ac i glustnodi unrhyw feysydd oedd angen eu datblygu er mwyn bod mewn sefyllfa i ymgeisio am y statws Lefel Uwch.



Ynghlwm wrth yr adroddiad oedd gerbron y Gweithgor y diwrnod hwnnw oedd dogfen oedd yn nodi pa dystiolaeth fyddai angen ei chyflwyno mewn cyflwyniad am statws Lefel Uwch. Gellid gweld o'r adroddiad bod mwyafrif y prosesau eisoes ar waith; fodd bynnag, oherwydd y ffaith bod aelodaeth yr Awdurdod wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd yr Aelodau a'r swyddogion yn cytuno bod angen edrych eto ar yr holl broses a'r ffordd orau o symud ymlaen.

Barnwyd bod yr Aelodau yn chwarae rhan bwysig iawn yn yr Awdurdod, a bod rhaglen gadarn o hyfforddi a datblygu yn hanfodol er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus a chynaliadwy. Roedd y Gweithgor yn cytuno y dylai'r Awdurdod anelu at gyrraedd statws Siarter Uwch ac, er mwyn gwneud hynny, y dylai'r Awdurdod ail-gadarnhau ei ymrwymiad i gynorthwyo a datblygu Aelodau drwy godi statws y Gweithgor i Bwyllgor i roi hwb ymlaen i'r rhaglen.

CYTUNWYD:

- (a) y dylai'r Awdurdod anelu at gyrraedd y Siarter Uwch ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau, a
- (b) bod y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yn cyflwyno adroddiad gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol ar sefydlu Pwyllgor i roi hwb ymlaen i'r rhaglen cefnogi a datblygu Aelodau.

